OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1992

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

## RHAN 6

## Tynnu neu amnewid marciau adnabod ar anifeiliaid a adnabuwyd cyn 1 Ionawr 2016

**Amnewid marc adnabod sengl ar anifail sydd ag un tag**

**21.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo'r modd adnabod neu'r modd adnabod hŷn ar anifail sydd â ffurf adnabod sengl ar goll neu'n annarllenadwy.

(2) Yn yr erthygl hon ystyr "anifail sydd â ffurf adnabod sengl" ("*single-identified animal*") yw anifail a adnabuwyd ag un modd adnabod hŷn yn unig a hwnnw'n cynnwys rhif unigryw a osodwyd o dan y Gorchmynion blaenorol.

(3) Pan fo ceidwad yn amnewid tag sydd ar goll neu'n annarllenadwy ar anifail a anwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005 rhaid i fodd adnabod newydd neu fodd adnabod amnewid fod yn dag adnabod ac nid yn datŵ.

(4) Os yw'r anifail ar ei ddaliad genedigol rhaid i'r ceidwad osod yn lle'r modd adnabod sydd ar goll neu'n annarllenadwy—

(a) modd adnabod sy'n dwyn yr un rhif unigryw â'r modd adnabod sydd ar goll neu sy'n annarllenadwy;

(b) modd adnabod newydd;

(c) dau fodd adnabod anelectronig, ill dau yn dwyn yr un rhif; neu

(d) y modd adnabod a bennir yn Erthygl 4(1) (y paragraff cyntaf), Erthygl 4(2)(a) a (b) ac Erthygl 9(3) o Reoliad y Cyngor.

(5) Os nad yw'r anifail ar ei ddaliad genedigol, caiff y ceidwad osod yn lle'r modd adnabod sydd ar goll neu'n annarllenadwy—

(a) modd adnabod sy'n dwyn yr un rhif unigryw â'r modd adnabod sydd ar goll neu sy'n annarllenadwy;

(b) modd adnabod amnewid;

(c) dau fodd adnabod anelectronig, ill dau yn dwyn yr un rhif; neu

(d) y modd adnabod a bennir yn Erthygl 4(1) (y paragraff cyntaf), Erthygl 4(2)(a) a (b) ac Erthygl 9(3) o Reoliad y Cyngor.

(6) Os caiff anifail ei ailadnabod gyda modd adnabod y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(b) i (d) rhaid i'r ceidwad gofnodi gwybodaeth am y modd adnabod amnewid gan gynnwys y cod adnabod llawn sydd ar y modd adnabod amnewid, a chofnodi'r llythrennau neu'r nod diadell neu'r nod geifre a oedd ar y modd adnabod gwreiddiol, os ydynt yn hysbys, yng nghofrestr y daliad.